



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

## ACHUB HANES GWELEDOL AR Y CYD

**Valentina Bachi – Rheolwr Prosiect**

**John Balean**

**Fred Truyen**

**Antonella Fresca**

**John Balean, TopFoto**

**Erik Buelinckx, KIK-IRPA**

**David Iglèsias Frank, Girona City Archive**

**Fred Truyen, KU Leuven**

**Antonella Fresa, Promoter srl**

Mae digideiddio yn ddrud ac mae'n cymryd llawer o amser, yn arbennig digideiddio o ansawdd uchel yn defnyddio'r technegau gorau. Mae cyllidebau archifau a chyfyngiadau amser yn eu gorfodi i flaenoriaethu pa wrthrychau maent am eu digideiddio, ac nid yw hyn bob amser yn cyd-fynd â chyfraddau dirywio'r gwrthrych gwreiddiol. Mae nifer o ddeunyddiau analog sy'n cynnwys treftadaeth weledol (fel negatiffau, printiau ffotograffig a lluniau ffilm cynnar) yn dod yn aneglur. Yr unig ffordd i gadw'r delweddau a'r seiniau hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yw drwy eu digideiddio a'u trosglwyddo i storfeydd digidol hygyrch.

Er gwaethaf rhywfaint o gyllid ar ffurf grantiau cenedlaethol, ac yn rhannol yn unol â galwadau'r UE, cyfrifoldeb ein Sefydliadau Treftadaeth Ddiwylliannol yw ein hanes gweledol ar y cyd. Mewn egwyddor, cydnabyddir fod gan sefydliadau o'r fath gyfrifoldeb llawn dros eu casgliadau, gan gynnwys sut maent yn sicrhau eu bod ar gael i gael eu gweld a'u haildefnyddio. Nid yw hon yn dasg hawdd heb gymorth allanol.

Gall fod gan gwmnïau preifat a chyrff cyhoeddus bolisiau a dulliau gwahanol o fynd ati wrth flaenoriaethu eu casgliadau, ond mae nifer o faterion yn gyffredin iddynt oll:

- Sut mae cynnal y buddsoddiad ar gyfer cyfarpar digideiddio a staff a chynllunio gweinyddol gyda'r gyllideb sydd ar gael

[Gorffennol Digidol 2021](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan | 8<sup>ed</sup> – 12<sup>ed</sup> Chwefror 2021, ar-lein drwy Zoom.

- Dewis rhwng cael rhywun mewnol neu allanol i gyflawni gwahanol gamau'r broses
- Gwerthuso meini prawf ar gyfer curadu eu casgliadau yn ystyrlon, yn benodol wrth flaenoriaethu digideiddio
- Sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r cyfyngiadau amser sy'n gysylltiedig ag ategion bregus yn dirywio
- Ymdrin ag ategion sydd o bosib yn beryglus, fel negatifau nitrad
- Pan fydd y cynnwys wedi cael ei ddigideiddio a phan fydd ar gael ar-lein, sut mae mynd ati i gynllunio prosesau mynediad, aildefnyddio a rhannu effeithiol
- Cynnwys anghenion y gymuned am fynediad/mwynhad a modelau busnes cynaliadwy
- Heriau cadw yn y tymor hir sy'n gysylltiedig â chasgliadau wedi'u digideiddio.

Bydd siaradwyr o gwmnïau preifat a chyrrff cyhoeddus yn rhannu tystiolaeth, arbenigedd a gwybodaeth er mwyn ysgogi trafodaeth ar y materion pwysig hyn.

## Bywgraffiad

Mae Valentina Bachi yn arbenigo mewn rheoli a lledaenu prosiectau Treftadaeth Ddiwylliannol Ddigidol, ac mae'n gweithio ar hyn o bryd ar y gyfres CEF-DSI gydag Europeana. Rheolwr prosiect ar gyfer prosiectau GS Kaleidoscope, PAGODE, EuropeanaXX ac ym mhrosiect CitizenHeritage ac achos cynnwys dinasyddion WeAre#EuropeForCulture.

Mae gan John Balean radd Baglor yn y Celfyddydau mewn Celfyddydau Gweledol a phrif radd mewn Ffotograffiaeth. Ef yw'r Rheolwr Gweithrediadau yn TopFoto, yn gyfrifol am gydlynu prosiectau Ewropeaidd. Mae wedi traddodi darlithoedd ac wedi ysgrifennu am y diwydiant lluniau, ac mae ganddo ddiddordeb penodol mewn Hanes Ffotograffiaeth yn y Wasg.

Mae Antonella Fresa wedi bod yn gweithio ar brosiectau Ewropeaidd ers y nawdegau. Yn 2002 daeth yn gydlynnydd technegol ac yn rheolwr cyfathrebu prosiectau cenedlaethol ac Ewropeaidd ym meysydd treftadaeth ddiwylliannol ddigidol, creu a chyd-greu, gwyddoniaeth i ddinasyddion, dinasoedd clyfar, cadwraeth ddigidol ac e-seilwaith.

Mae Fred Truyen yn athro yng Nghyfadrann y Celfyddydau, KU Leuven, lle mae'n gyfrifol am y labordy cyfryngau CS Digital. Mae'n cyhoeddi gwaith ar Ddigideiddio, Ffotograffiaeth ac E-ddysgu. Mae'n ymwneud â nifer o brosiectau ar Adnoddau Addysgol Agored ac ar Europeana.